# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 1 Ebrill 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Recriwtio a Chadw Staff yn y GIG

**C12 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am recriwtio a chadw staff yn GIG Cymru? (OAQ23793)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Y mae ein strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer GIG Cymru yn cwmpasu'r llwybr gyrfa cyfan, o ddewis gyrfa yn yr ysgol hyd at gynllunio ymddeoliad. Parhawn i gynyddu niferoedd y nyrsys, y meddygon a'r gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sydd o dan hyfforddiant, i gwrdd â'r galw lleol, a bu inni osod targedau staffio hyd at 2010 ar gyfer yr holl broffesiynau.

### Targedau'r Cytundeb Partneriaeth

**C13 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am roi'r targedau a amlinellir yn y cytundeb partneriaeth ar waith? (OAQ23804)

**Y Prif Weinidog:** Ers sefydlu'r Llywodraeth bartneriaeth, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflawni'r targedau strategol a nodwyd yn ein cynllun strategol a luniwyd ar y cyd, 'Cynllun i Gymru 2001'. Wrth roi'r targedau hyn ar waith, mae'r Llywodraeth wedi ymdrechu'n ddygn i ystyried themâu trawsbynciol cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol.

### Ymosodiad Milwrol ar Irac (Barn Cymru)

**C14 Cynog Dafis:** Sut y bydd y Prif Weinidog yn cyflwyno barn Cymru am yr ymosodiad milwrol ar Irac i'w gydweithwyr yn San Steffan? (OAQ23792)

**Y Prif Weinidog:** Dyletswydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'n cydweithwyr yn San Steffan sy'n cynrychioli etholaethau Cymru yw cynrychioli barn Cymru ar y mater hwn.

### Delwedd Cymru Dramor

**C15 Brian Gibbons:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar lefel ranbarthol i hyrwyddo delwedd ryngwladol Cymru? (OAQ23795)

**Y Prif Weinidog:** Hybir delwedd ryngwladol Cymru drwy nifer o weithgareddau, gan gynnwys ein haelodaeth o sawl rhwydwaith rhanbarthol dylanwadol a'n cysylltiadau dwyochrol â nifer o ranbarthau. Cyfrannwn at ddigwyddiadau rhyngwladol, fel yr ŵyl ryng-geltaidd yn Lorient, a threfnwn ymweliadau fel yr un diweddar gan arlywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw.

Dros y penwythnos, cyfrannais at sesiwn y rhwydwaith rhanbarthol ar ddatblygu cynaliadwy yn San Sebastián yng Ngwlad y Basg.